Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**
DYDDIAD	**18 Chwefror 2019**
GAN	**Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**

Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Y gyfraith sy'n cael ei diwygio

Mae elfennau o'r Rheoliadau hyn sy'n gymwys i Gymru yn diwygio Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2014/709/EU a Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ymadael â'r UE) 2019.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei gael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Ni effeithir o gwbl ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Nid yw elfennau o'r Rheoliadau hyn sy'n gymwys i Gymru yn rhoi swyddogaethau deddfwriaethol, ond maent yn rhoi swyddogaethau gweithredol i Weinidogion Cymru yn ddilyffethair.

Diben y diwygiadau

Mae elfennau'r Rheoliadau hyn sy'n gymwys i Gymru:

yn gwneud mân ddiwygiadau technegol i sicrhau y bydd Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2014/709 o ran mesurau rheoli iechyd anifeiliaid sy'n ymwneud â chlwy Affricanaidd y moch yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Byddai'r Penderfyniad wedi dod i ben ym mis Rhagfyr 2018 ond mae'r Comisiwn bellach wedi'i ymestyn ac mae angen gwneud diwygiadau penodol iddo i gywiro diffygion. Mae'r Penderfyniad yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion priodol atal symud moch fferal byw ac i osod arwyddion sy'n rhoi cyngor ynghylch peryglon lledaenu'r clefyd; ac

yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ymadael â'r UE) 2019 i sicrhau bod Penderfyniadau Gweithredu diweddar y Comisiwn (EU) 2018/1503 ac (EU) 2018/1959 sy'n sefydlu mesurau i atal *Aromia bungii* ac *Agrilus planipennis* (Fairmaire) rhag cael eu cyflwyno

a'u lledaenu yn yr UE yn cael eu gweithredu i ddiogelu bioddiogelwch domestig. Mae newidiadau hefyd yn cael eu gwneud i hwyluso masnach o ran deunydd dan reolaeth mewn perthynas ag iechyd planhigion rhwng y Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron a Chymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Nid yw'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn newid polisi, ond maent yn sicrhau y bydd cyfraith yr UE a ddargedwir yn parhau i weithio'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae’r diwygiadau wedi cael eu hystyried ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i’r DU ymadael â’r UE. Mae hyn yn unol â’r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd.